# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

## Canolfan Blant Elai a Chaerau,
## Coleg Gymunedol Michaelston,
## Heol Michaelston,
## Elai,
## Caerdydd.
## CF5 4SX

**Rhif yr Ysgol: 6811018**

**Dyddiad yr Arolygiad: 20/10/08**

**gan**

**Luned Eleri Betts**
**17717**

**Dyddiad Cyhoeddi: 22/12/08**

**O dan rif contract Estyn: 1105208**

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Canolfan Blant Elai a Chaerau fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Canolfan Blant Elai a Chaerau ntre rhwng 20/10/08 a 22/10/08, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Luned Eleri Betts. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion rhagorol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da'n gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

**Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **llawn**

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.  Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati.  Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Sector uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

| Cynnwys | | Tudalen |
|---|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| **Cyd-destun** | | 1 |
| **Crynodeb** | | 2 |
| **Argymhellion** | | 7 |
| **Safonau** | | 8 |
| Cwestiwn Allweddol 1: | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 8 |
| **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant** | | 10 |
| Cwestiwn Allweddol 2: | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 10 |
| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 12 |
| Cwestiwn Allweddol 4: | Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | 15 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | | 17 |
| Cwestiwn Allweddol 5: | Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | 17 |
| Cwestiwn Allweddol 6: | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 18 |
| Cwestiwn Allweddol 7: | Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 19 |
| **Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu** | | 21 |
| Cyfnod Sylfaen | | 21 |
| **Ymateb yr ysgol i'r arolygiad** | | 28 |
| **Atodiadau** | | 29 |
| 1 | Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol | 29 |
| 2 | Data a dangosyddion ysgol | 29 |
| 3 | Sail dystiolaeth yr arolygiad | 30 |
| 4 | Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu | 31 |

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1 Mae Meithrinfa Elai a Chaerau yn rhan o Ganolfan Blant Elai a Chaerau. Lleolir y ganolfan newydd ei hadeiladu ar gyrion gorllewinol dinas Caerdydd ger Croes Cwrlwys. Mae gan y ganolfan gyfrifoldeb cymdeithasol fwy pell gyrhaeddol nag sy gan ysgol. Mae'n cynnig gwasanaethau ychwanegol sy'n cefnogi ardaloedd Elai a Chaerau mewn partneriaeth â chyrff statudol a gwirfoddol. Mae'r feithrinfa, a gynhelir gan yr awdurdod, yn rhan o'r genadwri sy'n cefnogi'r plant. Mae'r ganolfan yn rhannu safle gyda Choleg Gymunedol Michaelstone.

2 Agorwyd y feithrinfa ym Medi 2005 i blant tair i bedair oed. Yn y dosbarth cyfrwng Saesneg mae lle i 40 o blant cyfwerth â llawn amser ac yn y dosbarth cyfrwng Cymraeg mae lle i 30 o blant cyfwerth â llawn amser. Daeth staff a phlant o Ysgol Feithrin Vachell i'r ganolfan pan y'i agorwyd. Mae'r dosbarth cyfrwng Cymraeg yn ddarpariaeth newydd sbon. Daw'r plant i'r feithrinfa bum bore neu brynhawn yr wythnos, gyda rhai yn manteisio ar y ddarpariaeth gofal lapio wrth fynychu'r clwb brecwast, clwb cinio a/neu'r gofal bob dydd. Mae 11 o staff yn y dosbarthiadau gan gynnwys dau gynorthwydd dosbarth sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

3 Mae ardaloedd Elai a Chaerau wedi'u dynodi yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac yn nodedig am fod yn wardiau difreintiedig iawn, ag ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd ac yng Nghymru. Priodolir cyrhaeddiad isel y plant, yn enwedig eu sgiliau llafar a chyfathrebu wrth gychwyn yn y feithrinfa, i'r amryw amodau difreintiedig cyffredin yn y ddwy gymuned. Mae gan un plentyn ddatganiad o anghenion addysg arbennig (AAA) ac mae 24% ar gofrestr AAA. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae un plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol.

4 Mae poblogaeth y ddwy ardal yn gymharol sefydlog gyda sawl cenhedlaeth o'r un teulu yn byw yn agos i'w gilydd. Saesneg yw iaith y cartre gan amlaf. Er mae tua dau y cant o'r plant sy'n siarad iaith arall gartre, un plentyn yn unig sy'n aelod o deulu lle mae'r Gymraeg yn famiaith. Tua pymtheg y cant o blant sy'n perthyn i deulu o dras lleiafrifoedd ethnig neu dras cymysg. Does dim manylion ar gael ynglŷn â chinio rhad ac am ddim i blant yr oed yma.

5 Dyma'r tro cyntaf i Estyn arolygu'r feithrinfa.

## Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

6 'Dysgu am Oes! Mae Pob Diwrnod yn Ddiwrnod i Ddysgu' Dyma brif ffocws datganiad gweledigaeth y Ganolfan.

7 Rhennir prif amcanion y feithrinfa gyda'r Ganolfan Integredig. Maent yn cynnwys:

- darparu gwasanaethau o'r radd uchaf i blant ac oedolion, gan gynnwys yr amgylchedd gorau posib mewn canolfan gynhwysol er mwyn datblygu hunan barch, hyder ac ymdeimlad o ffyniant i bawb;
- trafod plant fel unigolion gan barchu eu rhinweddau gwahanol, a chynnig iddynt gyfleoedd i ddatblygu gam wrth gam; a
- gweithredu polisi drws agored er mwyn estyn allan i'r gymuned leol gyda'r bwriad o ddarparu didoredd o ddysg sy'n gadarn a braf ac a fydd yn parhau gydol oes yr unigolyn.

8 Amcanion y feithrinfa eleni yw;

- datblygu cyfleoedd i staff y feithrinfa weithio gyda phobl broffesiynol eraill yn y Ganolfan
- sefydlu gardd gymuned a datblygu gwaith yn y Stafell Gymuned;
- cynnal y lefelau cyrhaeddiad uchel er mwyn hwyluso'r symud o'r cartre i'r Ganolfan ac o'r Ganolfan i'r cartre;
- cynnal datblygiad dwyieithrwydd;
- datblygu dysgu ac addysgu, asesu a darpariaeth o fewn y Cyfnod Sylfaen; a
- datblygu rôl y Corff Llywodraethol (CLl).

## Crynodeb

9 Mae darpariaeth yr addysg i blant tair i bedair oed a geir ynn Nghanolfan Blant Elai a Chaerau yn ysbrydoledig. Mae'r amgylchedd cyffrous a symbylol ynghyd â'r addysgu rhagorol yn cyfoethogi eu plentyndod. Datblyga'r plant yn unigolion annibynnol hyderus sydd yn credu ynddynt eu hunain ac sy'n parchu eu hunain ac eraill. Mae ansawdd uchel yr adeiladau a'r adnoddau addysgiadol yn fan cychwyn neilltuol i sawl agwedd o'u bywyd. Mae cyfraniad y feithrinfa i adfywiad cymunedol Elai a Chaerau yn aruthrol.

**Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd**

| Cwestiwn Allweddol | Gradd arolygu |
|---|---|
| 1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 1 |
| 2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 1 |
| 3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag | Gradd 1 |

| | | |
|---|---|---|
| | anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | |
| 4 | Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | Gradd 1 |
| 5 | Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | Gradd 1 |
| 6 | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 1 |
| 7 | Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 1 |

10 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â'r graddau a roddwyd gan y feithrinfa yn ei hadroddiad hunan-arfarnu yn y saith cwestiwn allweddol.

**Safonau**

11 Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 78% | 22% | - | - | - |

12 Mae'r ffigyrau hyn yn rhagori'n sylweddol ar gyfartaledd cenedlaethol y safonau a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2006-7 Prif Arolygwr ei Mawrhydi (PAEM), lle dangosir bod safonau gwersi ysgolion cynradd Cymru ar y cyfan yn Radd 2 neu'n well yn 80% o'r gwersi ac yn Radd 1 yn 10%.

**Meysydd dysgu ar gyfer plant o dan bump oed**

| | |
|---|---|
| Datblygiad personol a chymdeithasol, ffyniant ac amrywiaeth ddiwylliannol | Gradd 1 |
| Iaith llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 1 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 1 |
| Datblygiad yr iaith Gymraeg | Gradd 1 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 1 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 1 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 1 |

| **Maes a arolygwyd** | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Gradd 1 |

13 Mae ansawdd gyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at y Cyfnod Sylfaen.

14 Mae'r holl blant, yn cynnwys rhai ag ADY yn cyflawni'n dda iawn beth bynnag fo'u cefndir ethnig, cymdeithasol neu ieithyddol. Maent yn gwneud cynnydd rhagorol tuag

at gyrraedd eu potensial ac yn datblygu'n ddisgyblion hyderus ac ymreolus. Ychydig o wahaniaeth sydd ym mherfformiad a chyflawniad bechgyn a'r merched

15 Mae cynnydd y plant a'u cyrhaeddiad yn y medrau allweddol llythrennedd, rhifedd a'r defnydd o Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn rhagorol.

16 Yn ystod eu cyfnod byr yn y feithrinfa gwna'r plant gynnydd ardderchog mewn dwyieithrwydd. Yn y ddau ddosbarth ymatebant yn gywir i rychwant eang o gwestiynau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

17 Daw'r plant i ddeall yn gyflym yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Deallant yn glir y dag sydd rhaid ei chyflawni a sut gynnydd maent yn ei wneud. Maent wedi eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

18 Mae agwedd gadarnhaol, brwdfrydedd a diddordeb y plant yn eu gweithgareddau yn ardderchog. Mae eu hymddygiad yn dda iawn. Maent bob amser yn gwrtais i'r staff ac i'r amryw ymwelwyr â'r feithrinfa.

19 Siomedig ydy'r lefel presenoldeb 85.3%. Serch hynny mae prydlondeb yn dda yn y clwb brecwast a'r feithrinfa.

20 Gwelir cynnydd ardderchog yn natblygiad personol, cymdeithasol a moesol y plant; gweithiant yn annibynnol ac ar y cyd. Gallant wahaniaethu rhwng da a drwg. Gydol eu hamser yn y feithrinfa mae ganddynt ddirnadaeth ardderchog o chwarae teg a chydraddoldeb. Deallant yr amrywiaeth gymdeithasol tu allan i'r ysgol. Datblygwyd yn dda iawn eu hymwybyddiaeth o'r ardal leol a'r amryw gyfleusterau a galwedigaethau o'u cwmpas.

**Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

**Graddau ar gyfer addysgu**

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 67% | 33% | - | - | - |

21 Mae'r ffigyrau hyn yn llawer uwch na'r gyfartaledd cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2006-7 PAEM, lle dangosir bod ansawdd yr addysgu at ei gilydd yn ysgolion cynradd Cymru yn Radd 2 neu well yn 80% o'r gwersi ac yn Radd 1 yn 14%.

22 Mae safon uchel yr addysgu yn galluogi'r plant i ddysgu'n effeithiol iawn trwy chwarae ac arbrofi. Llwydda'r darparwyr i feithrin chwilfrydedd y plant yn rhagorol. Mae gan y staff wybodaeth rhagorol am egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn deall mai trwy ymchwilio ac arbrofi mae plant yn cael eu hysgogi i ddysgu; maent yn ystyried eu diddordebau a'u anghenion. Defnyddiant ystod eang o arddulliau dysgu a strategaethau addysgu yn llwyddiannus iawn er mwyn sicrhau bod y plant yn ymgolli yn eu gweithgareddau.

23 Mae'r dosbarth cyfrwng Saesneg yn diwallu'n dda iawn anghenion ieithyddol Saesneg y plant yn y dosbarth hwnnw ac yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn ystod y dydd mewn amryw cyd-destun, er bod amlder yr arfer hwn yn amrywio yn ôl y

staff. Yn y dosbarth cyfrwng Cymraeg mae'r darparwyr yn datblygu sgiliau iaith Gymraeg y plant yn arbennig o dda, ac yn manteisio ar wybodaeth y plant o'r ddwy iaith i gyfoethogi eu dysgu.

24 Mae ansawdd yr asesu yn rhagorol, mae amcanion dysgu a nodau clir y gwersi wedi'u cyfateb yn dda iawn. Mae asesu ac adolygu yn rhannau annatod o'r broses o ddysgu.

25 Cydnabu'r staff mai arsylwi gofalus yw sail pob asesiad. Rhennir gwybodaeth rhwng y timau ac mae'r gweithredu'n effeithiol a hylaw. Caiff y rhieni wybodaeth drylwyr iawn am ddatblygiad eu plant. Trosglwyddir cofnodion y plant i'r ysgol fabanod a chynradd ac i'r asiantaethau allanol amrywiol er mwyn hwyluso parhad y dysgu

26 Mae'r profiadau dysgu ac addysgu a gychwynnir gan y staff a'r plant fel ei gilydd yn rhagorol.

27 Mae darpariaeth y cwricwlwm yn diwallu'r anghenion statudol. Y plentyn yw canolbwynt y dysgu; mae hon yn nodwedd ardderchog. Mae'r ddarpariaeth yn eang, cytbwys a hyblyg ac yn ateb gyfynion rhychwant y disgyblion.

28 Mae darpariaeth y medrau allweddol yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r cyfleoedd ardderchog i chwarae rôl yn paratoi'r plant ar gyfer y byd gwaith.

29 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad personol, gan gynnwys ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn rhagorol. Mae'r cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth yn cyfoethogi twf cymdeithasol y plant mewn modd rhagorol.

30 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad diwylliannol yn dda gydag agweddau rhagorol. Adlewyrchir natur ddwyieithog ac etifeddiaeth draddodiadol Cymru ochr yn ochr â'r amrywiaeth a welir yn y Gymru fodern aml-ddiwylliannol yn dda iawn.

31 Mae ymwelwyr cyson â'r feithrinfa o ddydd i ddydd yn cyfoethogi profiadau'r plant. Yn yr un modd mae ymweliadau gan y plant yn cael eu defnyddio'n effeithiol i atgyfnerthu eu dysgu

32 Mae gan y feithrinfa bartneriaethau niferus o'r radd flaenaf. Ceir cyfleoedd helaeth i'r rhieni gyfrannu at ddatblygiad eu plant. Anogir y rhieni i fod yn ddysgwyr gydol oes ochr yn ochr â'u plant.

33 Defnyddir y partneriaethau niferus ag ysgolion lleol ynghyd â'r asiantaethau allanol sy'n rhannu'r Ganolfan, i gyfoethogi'n effeithiol y cyfleoedd dysgu. Mae'r ddwy garfan yn elwa o'r berthynas â'r coleg sy'n rhannu'r safle. Ceir cysylltiadau ardderchog gyda diwydiant.

34 Caiff y plant gyfle i gyfrannu at strategaethau i hyrwyddo datblygiad cynaladwy a dônt yn fwy ymwybodol o'u rôl fel dinasyddion byd-eang. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer bywyd a bwyta'n iach yn ardderchog.

35 Mae safon y gofal, cynhaliaeth ac arweiniad yn rhagorol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i les y plant. Teimla'r plant yn ddiogel, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Teimla'r staff empathi gyda'r plant a chydymdeimlad lawn gyda nhw a'u rhieni ac mae hyn yn cyfrannu at y naws gadarnhaol.

36 Mae trefn monitro a hybu presenoldeb cyson a phrydlondeb yn effeithiol; mae'r feithrinfa yn awyddus i ddatblygu arfer dda yn y rhieni. Mae'r cyfundrefnau sy'n monitro ac yn mynd i'r afael â materion disgyblaeth yn dda iawn.

37 Caiff cyfleoedd cyfartal le blaenllaw; caiff pob plentyn yn ddiffael chwarae teg beth bynnag fo'i gefndir cymdeithasol, ieithyddol neu ethnig. Ceir darpariaeth ardderchog i anghenion addysgol pob unigolyn, gan gynnig cefnogaeth effeithiol iawn i blant ag anghenion cymhleth.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

38 Mae nod a gwerthoedd y feithrinfa'n glir ac fe'u hadlewyrchir gydol y dydd. Y man cychwyn yw sicrhau bod y plentyn yn ganolog i'r dysgu a bod pawb yn gynwysiedig yn hyn. Mae pob oedolyn wedi'i ysgogi i rannu'r amcanion. Mae'r ymdeimlad o berthyn i dîm yn rhagorol. Gwerthfawrogir yn gydradd holl staff y feithrinfa.

39 Mae gan y Pennaeth a'r Dirprwy rôl ehangach yn arwain a rheoli'r Ganolfan Blant. Bu hyn yn ysbrydoledig o'r cychwyn ac mae'n parhau i fod felly. Mae rôl y gweithwyr allweddol wedi'i datblygu i radd uchel.

40 Mae ystod eang o bolisiau rheolaethol yn cynnal y drefn ddyddiol a'r strategaethau gan sicrhau bod cysondeb wrth weithredu. Mae'r ymateb i fentrau cyfredol yn rhagorol.

41 Mae'r feithrinfa yn gwbl ymwybodol o'i chryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Sefydlwyd diwylliant sy'n adlewyrchu'n effeithiol yr arfer dda. Bydd y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth yn monitro'r dysgu yn gyson. Sefydlwyd targedau pwrpasol i'r dysgu a'r addysgu.

42 Mae'r feithrinfa yn rhan o asesu ac arfarniad trosglwyddiad gwasanaeth y Ganolfan Blant. Cynhelir dadansoddiad manwl o'r defnydd a wneir o'r cyllid a'i effaith. Cedwir llygad manwl ar ddogfennau'r Ganolfan, gan gynnwys rhai'r feithrinfa, wrth i ddeddfwriaethau newydd ddod i rym. Mae adroddiad blynyddol hunan -arfarniad y feithrinfa yn ddogfen gynhwysfawr. Arolygir yn gyson gynllun gwella'r Ganolfan (CGG).

43 Mae'r asesiadau tîm dyddiol o'r dysgu a'r addysgu yn rhan ragorol o'r broses hunan -arfarnu. Gofynnir am farn rhieni'r Ganolfan gan weithredu yn ôl eu gofynion. Gwrandewir bob amser ar lais y plant a bydd eu barn, eu mwynhad a'u diddordeb yn aml yn arwain eu dysgu.

44 Cyfrifoldeb y CLl yw'r Ganolfan Blant yn ei chyfanrwydd. Rheolir y gyllideb yn effeithiol ac mae'n cwrdd â'r gofynion statudol. Mae'r aelodau'n adnabod y feithrinfa'n dda ac yn cyfrannu'n effeithiol at ei datblygiad strategol. Maent yn ymweld â'r feithrinfa'n gyson ond nid yw eu rôl yn monitro'r ddarpariaeth dosbarth wedi datblygu'n llwyr.

45 Mae lefelau staffio yn dda iawn yn ôl rhifau plant ar y gofrestr. Mae'r holl staff yn gymwys iawn i ddarparu' r cwricwlwm i blant dan bump yn effeithiol. Mae'r holl staff,

gan gynnwys rhai o asiantaethau allanol, yn uno yn y grêd y gallant wneud gwahaniaeth i eraill.

46 Mae ystod ac ansawdd yr adnoddau dysgu yn rhagorol; gwnânt wahaniaeth pwysig i'r safonau cyraeddiad rhagorol.Caiff y plant gyfleoedd niferus i ddefnyddio ystod o ddefnyddiau ac adnoddau safonol dan do ac yn yr awyr agored.

47 Mae'r Ganolfan a adeiladwyd i'r pwrpas yn cwrdd â gofynion y plant ifanc a'r gymuned ehangach mewn dull rhagorol. Mae ansawdd yr adeiladau hefyd yn rhagorol ac mae'r ardaloedd awyr agored wedi ei datblygu gyda dychymyg.

48 Arolygir y gyllideb yn gyson. Mae'r feithrinfa yn darparu gwerth da iawn am arian.

## Argymhellion

Er mwyn adeiladu ar y safonau a'r ddarpariaeth bresennol rhagorol mae angen i'r staff ac aelodau'r CLl;

A1 barhau i ddatblygu strategaethau i wella presenoldeb;

A2 parhau i sicrhau bod pob aelod o'r darparwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson er mwyn adeiladu ar y cychwyn ardderchog a wnaed eisoes wrth ddatblygu'r Gymraeg fel ail iaith; a

A3 parhau i ddatblygu rôl aelodau'r CLl yn arsylwi a monitro safonau a darpariaeth yn y dosbarthiadau.

O.N. Mae'r tri argymhelliad eisoes yn dargedau yn y CGG.

Mae'r CLl yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?**

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

49 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd gyda'r radd a roddodd y feithrinfa yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

50 Yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, barnwyd safonau yn y sesiynau fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 78% | 22% | - | - | - |

51 Mae'r ffigyrau hyn yn rhagori'n sylweddol ar gyfartaledd cenedlaethol y safonau a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2006-7 Prif Arolygwr ei Mawrhydu (PAEM), lle dangosir bod safonau gwersi ysgolion cynradd Cymru ar y cyfan yn Rradd 2 neu'n well yn 80% o'r gwersi ac yn Radd 1 yn 10%.

**Graddau ar gyfer y meysydd dysgu.**

| | |
|---|---|
| Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac aml-ddiwylliannol | Gradd 1 |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 1 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 1 |
| Datblygiad yr iaith Gymraeg | Gradd 1 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 1 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 1 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 1 |

| **Maes a arolygwyd** | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Gradd 1 |

52 Mae ansawdd gyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at y Cyfnod Sylfaen.

53 Mae'r targedau, a osodir yn ddyddiol gan y darparwyr i grwpiau o blant, yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu diddordebau, yr hyn maent yn ei wybod eisoes a pha sgiliau i'w datblygu. Cyflawna'r plant y targedau gyda chynhaliaeth effeithiol iawn y staff allweddol.

54 Mae'r holl blant, yn cynnwys rhai ag ADY yn cyflawni'n dda iawn beth bynnag fo'u cefndir ethnig, cymdeithasol neu ieithyddol. Maent i gyd yn dangos cynnydd rhagorol tuag at gyrraedd eu potensial ac yn datblygu'n ddisgyblion hyderus ac ymreolus.

55 Ychydig wahaniaeth sydd rhwng cyrhaeddiad a sut mae bechgyn a merched yn ymgymryd a'u dysgu, er bod hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn gyffredinol, mae carfannau yn dechrau yn y feithrinfa gyda sgiliau isel, yn enwedig sgiliau iaith a sgiliau cymdeithasol. Mae nifer o blant sy'n dechrau yn y feithrinfa ag anghenion cymhleth.

56 Mae cynnydd rhagorol yn y sgiliau allweddol. Erbyn i'r plant adael y feithrinfa mae lefel eu cyflawniad tipyn yn uwch na'r hyn a ddisgwylir.

57 Mae safonau gwrando a siarad yn gyson rhagorol. Mae'r staff eu hunain yn wrandawyr da; mae'r plant yn deall o oed cynnar felly bod gwrando yn bwysig iawn. Maent yn siarad yn hyderus ac yn ymateb yn dda i gwestiynau'r athrawon, ac yn mynegi eu hanghenion, disgrifio'r dasg ac egluro'n fedrus sut i ddatrys problemau yn effeithiol. Ânt i chwilio am lyfrau yn wirfoddol gan gymryd mantais o ystod o weithgareddau i wneud llinellau a siapiau i ddatblygu sgiliau cyn-ysgrifennu

58 Gwelir cynnydd a safonau cyson dda ar draws pob ardal mewn rhifedd. Gall y plant gymhwyso'n gywir eu gwybodaeth o rif, siap a mesur mewn gweithgareddau chwarae rôl.

59 Mewn TGCh dangosa'r plant hyder wrth drafod y cyfrifiadur, y bwrdd gwyn rhyngweithiol, camera digidol ac offer cegin; mae safonau yn dda iawn.

60 Yn ystod yr amser byr maent yn y feithrinfa, mae'r plant yn gwneud cynnydd da mewn dwyieithrwydd. Yn y ddau ddosbarth maent yn ymateb yn gywir i ystod o gwestiynau sy'n cyfateb i'w gallu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

61 Daw'r plant yn ymwybodol yn fuan beth a ddisgwylir ganddynt. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'r dasg a sut maent yn datblygu. Maent yn barod am y cam nesaf yn eu dysgu.

62 Mae agwedd gadarnhaol y plant, eu brwdfrydedd a'u diddordeb yn eu gweithgareddau a'u dysgu yn ardderchog. Maent yn awyddus i ymgymryd â'r holl ystod o weithgareddau gan ddatblygu'n dda iawn eu sgil i gynnal eu canolbwyntio. Yn aml maent wedi llwyr ymgolli yn y dasg; gweithiant yn ddiwyd gan ddefnyddio'u hamser yn effeithiol. Mae hon yn nodwedd ragorol. O fewn yr ardaloedd a drefnir o fewn y feithrinfa a'r prosiectau anogir hwy i wneud penderfyniadau ac i ddatblygu'n dda eu sgiliau datrys problemau.

63 Mae ymddygiad y plant yn dda iawn wrth iddynt symud o gwmpas ardaloedd penodol y feithrinfa, gan gydweithio'n frwd gyda'u cyfoedion a'r staff. Maent bob amser yn gwrtais i'r llu ymwelwyr â'r feithrinfa.

64 Mae'r lefel presenoldeb ar 85.3% yn siomedig. Adlewyrcha hwn bresenoldeb y plant yn y feithrinfa, heb ystyried y plant sydd weithiau gyda'u rhieni neu ofalwyr yn y Ganolfan yn ymwneud â gweithgareddau ar y cyd. Fel arfer mae absenoldebau yn rhai awdurdodedig oherwydd anogir y rhieni i gysylltu â'r feithrinfa os bydd salwch

neu weithgareddau eraill yn achosi absenoldeb. Mae prydlondeb yn y clwb brecwast a'r feithrinfa yn dda iawn.

65 Gwelir cynnydd ardderchog yn natblygiad personol, cymdeithasol a moesol y plant. Mae ansawdd cadarnhaol i bob perthynas yn y feithrinfa. Gweithia'r plant yn annibynnol ac ar y cyd. Gallant wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac anghywir.

66 Gydol eu hamser yn y feithrinfa mae ganddynt ddirnadaeth ardderchog o chwarae teg a chydraddoldeb sy'n amlygu ei hun. Mae dathlu gwahanol genhedloedd a gwyliau diwylliannol yn ychwanegu at ddealltwriaeth o'r amrywiaeth gymdeithasol tu allan i'r ysgol.

67 Datblygwyd yn dda eu dirnadaeth o'r ardal leol a'r amryw gyfleusterau a galwedigaethau o'u cwmpas yn sgîl ymweliadau pobl o'r byd gwaith i'r feithrinfa a'r nifer ymweliadau a wneir gan y plant i alwedigaethau penodol a phrosiectau. Caiff y plant gyfle i lanhau ffenestri'r feithrinfa a golchi ceir; deallant bod angen gwisgo dillad pwrpasol i gyflawni rhai swyddi er mwyn cadw'n ddiogel.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?**

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

68 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd gyda'r radd a roddodd y feithrinfa yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

69 Barnwyd ansawdd yr addysgu yn y sesiynau a arsylwyd fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 67% | 33% | - | - | - |

70 Mae'r ffigyrau hyn yn llawer uwch na'r gyfartaledd cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2006-7 PAEM, lle dangosir bod ansawdd yr addysgu at ei gilydd yn ysgolion cynradd Cymru yn Radd 2 neu'n well yn 80% o'r gwersi ac yn Radd 1 yn 14%.

71 Mae'r addysgu yn cwrdd yn rhagorol ag anghenion y plant a gofynion cwricwlaidd. Mae'r darparwyr yn cyflwyno'r addysgu mewn dull hwyliog sy'n llwyddo i ysgogi a herio'r plant. Mae safon uchel yr addysgu yn digwydd yn effeithiol iawn trwy chwarae ac ymchwilio, a llwydda'r darparwyr i feithrin chwilfrydedd y plant yn wych.

72 Defnyddia'r staff ystod eang o arddulliau dysgu a strategaethau addysgu yn llwyddiannus iawn er mwyn sicrhau bod y plant yn ymgolli yn eu gweithgareddau.

73 Mae ymroddiad cryf y staff i'w datblygiad proffesiynol parhaol yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o'r datblygiadau diweddaraf; mae hyn yn gymorth i'r plant wneud cynnydd da.

74 Mae cyfathrebu ardderchog rhwng yr holl staff yn tynnu sylw at ac yn rhannu arfer dda sydd yn sicrhau cynllunio effeithiol iawn. Trefnir yr amgylchedd ddysgu yn dda iawn a gwna'r staff ddefnydd dychmygus iawn o'r adnoddau diddorol er mwyn hyrwyddo'r dysgu.

75 Mae gan bob un o'r staff berthynas gynnes a chyfeillgar gyda'r plant ac mae hyn yn arwain at feithrin dysgu da iawn. Maent yn cydnabod gwerth pob plentyn fel unigolyn.

76 Pan fo nodweddion ardderchog yn yr addysgu mae'r darparwyr yn:

- cyfleu i'r plant bod y staff yn cydnabod eu bod yn gallu dysgu;
- dangos bod eu disgwyliadau o'r holl blant yn uchel;
- cydnabod a darparu profiadau dysgu aml-synhwyrol;
- gwybod pryd i ymyrryd yn yr addysgu a gwneud hynny yn sensitif; a
- meddu ar wybodaeth ardderchog o'r pynciau.

77 Pan fo nodweddion da yn yr addysgu mae'r darprwyr yn :

- sicrhau bod amcanion dysgu yn glir ac wedi'u rhannu gyda'r plant;
- darparu cyfleoedd i'r plant wneud dewisiadau a phenderfyniadau;
- defnyddio cwestiynau pen-agored er mwyn datblygu sgiliau meddwl;
- annog y plant i holi: a
- gwrando'n ofalus ar y plant a rhoi amser iddynt ymateb i sylwadau a chwestiynau.

78 Mae'r addysgu'n darparu cyfle cyfartal ac yn sicrhau bod bechgyn a merched yn cael yr un cyfleoedd o dan do ac yn yr awyr agored.

79 Mae'r dosbarth cyfrwng Saesneg yn cwrdd ag anghenion iaith Saesneg y plant yn dda iawn, ac yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn ystod y dydd mewn amryw cyd-destun; serch hyny mae'r defnydd ar draws y darparwyr yn anghyson. Yn y dosbarth cyfrwng Cymraeg mae'r athrawon yn datblygu mewn modd neilltuol sgiliau Cymraeg y plant ac yn gwneud defnydd o'u gwybodaeth o'r ddwy iaith i gyfoethogi eu dealltwriaeth o'r ddwy iaith.

80 Mae ansawdd yr asesu yn rhagorol; mae strategaethau wedi'u cyfatebu yn dda iawn i'r amcanion dysgu a'r nodau clir . Mae'r adolygu a'r asesu yn rhan hanfodol o'r broses dysgu. Casgla'r oedolion nodiadau maes, lluniau ffotograffig a thystiolaeth fideo yn effeithiol er mwyn cofnodi cyflawniad a chynnydd.

81 Mae pob darparwr yn cydnabod pwysigrwydd y ffaith mai arsylwi manwl yw sail pob asesu. Mae'r timau yn dda am rannu gwybodaeth ac mae'r gweithredu'n effeithiol a hydrin.

82 Defnyddia'r feithrinfa nifer o raglenni asesu i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â lefel cyfraniad y plant a'u lles, ynghyd â sut maent yn rhyngweithio gyda'u gweithgareddau ac ymysg ei gilydd. Dadansoddir y wybodaeth hon a'i defnyddio'n effeithiol iawn i gynorthwyo wrth gynllunio ar gyfer pob unigolyn.

83 Nodir cyfleoedd i asesu'r plant yn gyson. Mae arsylwadau ffocysedig, ynghyd â chyfleoedd sy'n codi'n naturiol yn rhoi golwg glir i'r staff o gyflawniadau unigol y plant.

84 Mae canlyniadau dysgu yn cael eu monitro yn ofalus ac yn arwain at gynllunio tymor byr llwyddiannus iawn. Mae'r staff fel tîm yn adolygu'n gyson cynnydd pob unigolyn ac yn cynnig argymhellion i'r cynlluniau tymor canol gan ystyried anghenion penodol.

85 Mae'r cynllun gweithiwr allweddol yn effeithiol iawn ac yn sicrhau parhad yn y gofal i bob plentyn; trwy goladu 'r holl wybodaeth a'i ddefnyddio yn sail i gynllunio'r dyfodol. Cedwir proffil defnyddiol o bob plentyn; amlinellant datblygiad y plentyn yn effeithiol iawn mewn dull naratif, arsylwadau a ffotograffau.

86 Mae dealltwriaeth y plant o bwrpas asesu a'u rôl nhw wrth gynllunio'u cynnydd yn rhagorol. Fe'u hanogir i gynnig sylwadau a chyfrannu at arsylwadau'r darparwyr o ran lefelau cynnydd a diddordeb. Derbyniant atborth cadarnhaol gan y staff, ac mae hyn yn codi ymwybyddiaeth ynddynt o rai o'u cryfderau.

87 Caiff rhieni wybodaeth drylwyr am ddatblygiad eu plant trwy gysylltiad anffurfiol o ddydd i ddydd yn ogystal ag mewn cynadleddau rhieni/staff, mewn adroddiadau canol tymor ac adroddiadau ysgrifenedig diwedd blwyddyn. Mae'r rhain oll o'r radd flaenaf, ac ynghyd â'r proffiliau, yn rhoi manylion llawn am siwrnai ddysgu pob plentyn. Maent yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

88 Trosglwyddir cofnodion manwl i'r ysgolion babanod a chynradd ac i'r asiantaethau allanol amrywiol er mwyn hwyluso parhad y dysgu.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

### Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

89 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd gyda'r radd a roddodd y feithrinfa yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

90 Mae'r profiadau dysgu a gychwynnir gan y staff a'r plant fel ei gilydd yn rhagorol. Mae'r feithrinfa wedi llwyr gofleidio athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Cyflwynir y ddarpariaeth trwy weithgareddau ysgogol.

91 Mae darpariaeth y cwricwlwm yn diwallu'r anghenion statudol. Mae'r holl ddysgu yn troi o gwmpas y plentyn; mae hon yn nodwedd ardderchog. Mae'r ddarpariaeth yn eang, cytbwys a hyblyg ac yn ateb gyfynion holl ystod y disgyblion.

92 Cyflwynir a chynllunir pynciau cyfredol yn greadigol a chyffrous. Mae'r darparwyr yn ymateb o ddydd i ddydd i ddigwyddiad arbennig neu annisgwyl. Mae hon yn nodwedd ragorol.

93 Mae paratoi a threfnu gweithgareddau i grwpiau ffocws yn ddychmygus. Mae'r cyfnodau cynllunio ar ddiwedd y dydd sy'n cynnwys yr holl staff yn sicrhau bod arsylwadau gweithgareddau'r dydd yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau'r dyfodol. Mae rhannu syniadau, arbenigedd, gwybodaeth a dealltwriaeth yn sicrhau bod y dysgu 'n berthnasol a bod datblygiad yn y dysgu i bob plentyn yn agwedd bwysig o'r ddarpariaeth. Mae tasgau cartref, fel rhannu llyfr darllen â rhiant, yn briodol ac yn cyfoethogi'r dysgu.

94 Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bob plentyn ag ADY gan gynnwys y rhai mwy abl. Does dim ystrydebu yn y dysgu.

95 Nodwedd ragorol yw'r defnydd llawn a wneir o'r ardal awyr agored yn y dysgu. Mae'n ardal symbylus sy'n darparu gwagle, adnoddau naturiol sy'n cael eu defnyddio'n greadigol ac ystod o adnoddau o'r radd flaenaf sy'n datblygu pob agwedd o'r dysgu. Mae Ysgol y Goedwig a'r ardd yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn wyc.

96 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y sgiliau allweddol yn dda gyda nodweddion rhagorol. Darperir ystod o gyfleodd cyffrous i'r plant ddatblygu'u sgiliau gwrando a siarad sy'n eu gwahodd i wrando mewn rhyfeddod a siarad gyda chyffro. Fe'u hanogir i gynnig arsylwadau, holi, rhoi atebion, datgan barn ac ymateb i syniadau eu cyfoedion.

97 Mae darpariaeth yr ystod o adnoddau darllen yn annog plant i fentro i fyd llyfrau. Cânt gyfle i dynnu llinellau a gwneud marciau ar bapur gan ddechrau tybio eu bod yn awduron. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm a'r cyfle i ddefnyddio cyfrifiadur ac offer clywedol er mwyn atgyfnerthu sgiliau iaith a rhifedd yn nodweddion da.

98 Ceir darpariaeth ardderchog ar gyfer chwarae rôl sy'n cyflwyno'r plant yn llwyddiannus i fyd gwaith. Yn yr awyr agored dychmygant eu bod yn ddynion tân, adeiladwyr, mecanyddion a garddwyr; o dan do maent yn gogyddion a gweithwyr ysbyty.

99 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'n bersonol, ysbrydol, moesol a diwylliannol yn rhagorol. Mae'r ymdeimlad o gywreinrwydd a deimlir bob dydd yn y feithrinfa yn peri syfrdandod a rhyfeddod. Mae grwpiau ffocws bach yn rhoi'r cyfle i blant ymestyn eu datblygiad moesol a dônt yn fuan i ddeall yr hyn sy'n dderbyniol ac annerbyniol, yr hyn sy'n gyfiawn ac anghyfiawn. Mae'r cyfle i ryngweithio gyda'u cyfoedion mewn amryw sefyllfaoedd a chyfleoedd, er mwyn tyfu'n annibynnol, yn cyfoethogi datblygiad cymdeithasol y plant mewn modd rhagorol.

100 Mae datblygiad diwylliannol yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r plant yn deall, er enghraifft, bod geiriau Tsieinëeg yn edrych yn wahanol i'r geiriau cyfarwydd a welant o'u cwmpas. Mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu'n effeithiol iawn natur ddwyieithog a threftadaeth ddiwylliannol y Gymru draddodiadol ochr yn ochr ag amrywiaeth cymdeithas fodern aml-ddiwylliedig.

101 Mae'r profiadau dyddiol yn cael eu cyfoethogi gan ymwelyr i'r feithrinfa. Mae cwmni adeiladu, er enghraifft, yn hybu dealltwriaeth y plant ynglŷn â gwisg waith ac offer sy'n rhaid eu ddefnyddio.

102 Mae ymweliadau â Stadiwm y Mileniwm, llyfrgell, milfeddygfa, marchnad bysgod a chanolfan cŵn yr heddlu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i atgyfnerthu'r dysgu. Cyfranna'r clybiau cyn ac wedi ysgol yn effeithiol at hybu agwedd plant at ddysgu.

103 Mae partneriaethau'r feithrinfa yn niferus ac o'r radd flaenaf. Ceir cyfleoedd di-ri i'r rhieni gymryd rhan yn natblygiad eu plant. Anogir y rhieni i fod yn ddysgwyr gydol oes ochr yn ochr â'u plant.

104 Mae'r feithrinfa 'n gwneud defnydd ardderchog o'i lleoliad o fewn y Ganolfan Blant, er mwyn bod wrth galon cymunedau Elai a Chaerau. Mae ei rôl yn hyrwyddo adfywiad cymunedol, wrth ddarparu amgylchedd o'r safon uchaf lle mae rhieni eisiau dod â'u plant , yn cyfrannu'n sylweddol at hunan hyder a hunan gred y plant. Mae mentrau, tebyg i baratoi cawl i'r grŵp cerddwyr lleol yn hybu ymdeimlad y plant o berthyn i'r ardal leol.

105 Mae'r partneriaethau gydag ysgolion yn y cylch, yn enwedig y rheini sydd yn darparu addysg i blant dan bump, a'r ysgolion mae'r plant yn trosglwyddo iddynt.

106 Mae'r partneriaethau gydag asiantaethau allanol, llawer wedi'u lleoli yn y Ganolfan, yn niferus ac yn cael eu defnyddio'n wych i gyfoethogi cyfleoedd dysgu. Mae'r bartneriaeth gyda'r coleg sy'n rhannu'r safle, yn un sy'n fuddiol i'r ddau. Darpara myfyrwyr y coleg brydau bwffe da iawn a gwasanaethau eraill pan ddaw ymwelwyr i'r feithrinfa. Mae'r feithrinfa hefyd yn cefnogi hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr gofal plant o nifer o asiantaethau a cholegau lleol.

107 Mae'r bartneriaeth â diwydiant yn ardderchog. Mae llawer yn darparu grantiau ac mae'r rhain, ynghyd â'r ymweliadau sy'n gysylltiedig â masnach a diwydiant, yn cyfoethogi'r dysgu yn sylweddol.

108 Mae'r plant yn weithgar gyda strategaethau sy'n hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac yn dod i sylweddoli eu rôl fel dinasyddion byd-eang. Gwneir hyn yn effeithiol wrth greu cwrtaith o wastraff bwyd a gwastraff gardd, ail-gylchu ac arbed dŵr. Anogir y plant i gasglu sbwriel er mwyn tacluso'r amgylchedd. Fe'u hysgogir yn dda gan weithgareddau yn Ysgol y Goedwig a'r ardd, gan hyrwyddo eu dealltwriaeth o fanteision tyfu eu cynnyrch eu hunain.

109 Gwneir ymdrech i sefydlu arfer dda wrth fwyta'n iach yn y clwb brecwast, yn y sesiynau coginio yn y feithrinfa ac amser bwyta tamaid-i-aros-pryd.

110 Caiff y plant gyfle i ddangos sgiliau entrepreneraidd wrth iddynt, er enghraifft, werthu teisennod i rieni a chodi stondinau i werthu llaeth a hufen iâ.

**Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

111 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd gyda'r radd a roddodd y feithrinfa yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

112 Mae ansawdd y gofal, cynhaliaeth ac arweiniad yn rhagorol. Mae'r feithrinfa yn gymuned gynnes, groesawgar, gynhwysfawr, ofalgar lle mae pob plentyn yn derbyn lefel uchel o sylw, cynhaliaeth ac arweiniad. Mae gofal y staff ac aelodau yr ystod eang o asiantaethau yn eithriadol. Caiff lles y plant flaenoriaeth uchel. Mae'r ddarpariaeth gofal lapio o'r radd flaenaf ac mae'r plant yn ddiogel mewn adeilad eang.

113 Mae'r darparwyr yn adnabod y plant yn dda iawn. O'r herwydd teimlant yn ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi; mae'r rhieni yn sôn am yr awyrgylch hapus, cyfeillgar. Mae trefniadau effeithiol iawn ar gyfer tracio plant drwy'r dydd yn sicrhau diogelwch pob plentyn. Gwna'r feithrinfa ddefnydd neilltuol o dda o wasanaethau cefnogol, er enghraifft, yr ymwelydd iechyd enebwedig a'r paediatregydd cymunedol; mae hyn yn elfen eithriadol.

114 Mae'r feithrinfa yn cynnwys rhieni a gofalwyr yn weithredol yn ei rhaglenni cefnogi teuluoedd, er enghraifft, Dosbarth Cefnogi Rhieni, Camau Bach, a Iaith a Chwarae.. Cânt groeso unrhyw adeg ac fe'u cymhellir i gyfrannu at y byrddau diddordeb ac arddangosfeydd.

115 Mae cyfathrebu gyda rhieni, er enghraifft trwy gylchlythyrau rheolaidd a hysbysfwrdd rhieni yn sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd y cartre yn effeithiol iawn. Anogir y rhieni i ymddiddori yn nysgu eu plant fel y'u bod yn gwneud y cynnydd mwyaf. Mae empathi a dealltwriaeth y darparwyr o'r plant a'r rhieni yn cyfrannu'n fawr at y naws gadarnhaol.

116 Mae trefniadau trosglwyddol o'r cartre i'r feithrinfa yn rhagorol. Mae trefniadau effeithiol iawn yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda ac yn gyflym i'r drefn newydd. Cyn i'r plentyn ddechrau yn y feithrinfa mae darparwyr yn ymweld â'r cartref ymlaen llaw ac yn cyflwyno pecyn gwybodaeth i'r rhieni. Pan fo plant yn cychwyn, anogir y rhieni i aros cyhyd ag sydd angen er mwyn cynnal lles emosiynol y plentyn.

117 Cyn i'r plentyn adael i fynd i ysgol gynradd neu ysgol fabanod, daw'r athrawon dosbarth derbyn o'r ysgolion hynny i ymweld â'r feithrinfa; mae'r plentyn yn elwa'n fawr o'i ymweliadau â'i ysgol newydd.

118 Mae rhaglen datblygiad personol a chymdeithasol yn hygyrch i bob plentyn; mae hyn yn gryfder. Rhoddir pwyslais cryf ar hyrwyddo gwerthoedd megys caredigrwydd a chydweithrediad, gan gynnig profiadau dysgu sydd yn magu hunan barch.

119 Mae'r cysylltiadau â'r AALl a'r gwasanaethau cynhaliol megys gwasanaethau cymdeithasol a'r therapyddion lleferydd yn effeithiol iawn ac yn dylanwadu'n bositif ar y gofal, arweiniad a'r gynhaliaeth a gynigir i'r plant.

120 Ceir polisïau a gweithdrefnau clir a thrylwyr i sicrhau iechyd a diogelwch pan fo'r plant yn y feithrinfa. Mae'r asesiadau risg yn drefnus a chaiff y plant fyr-fwyd iach a dŵr yn ystod y dydd.

121 Ceir gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro a hybu presenoldeb cyson, megis taflenni 'Miss Out' sy'n cael eu hanfon i rieni i'w hannog i anfon eu plant i'r ysgol. Mae prydlondeb yn cael ei fonitro'n ofalus, a bydd y feithrinfa'n cysylltu â'r rhieni yn ddiymdroi i holi rhesymau pam fo'r plentyn yn hwyr ac maent yn cynnig strategaethau i oresgyn y broblem yn briodol. Mae'r feithrinfa'n awyddus i ddatblygu arfer dda ymysg y rhieni.

122 Mae'r cyfundrefnau monitro ac ymateb i bryderon o ran ymddygiad y plant yn dda iawn. Anogir y plant i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, ac mae strategaethau llwyddiannus wedi'u sefydlu i ddelio ag ymddygiad. Gwneir popeth i gefnogi unigolyn sydd â'i ymddygiad yn rhwystro'i gynnydd neu gynnydd unigolyn arall.

123 Mae cyfundrefnau priodol wedi'u sefydlu er mwyn diogelu plant, ac mae pob un o'r darparwyr yn ymwybodol o'u dyletswyddau. Mae pob un wedi derbyn hyfforddiant diweddar mewn cyfundrefnau diogelu plant.

124 Mae'r feithrinfa yn cefnogi ac ymdrin yn effeithiol iawn â phlant sydd ag anghenion dwys. Mae'n cwrdd ag anghenion côd ymarfer yr AAA ac yn gweithio'n rhagorol i gymryd mantais o'r gwasanaethau cynhaliol addas. Mae ansawdd dda iawn i gynlluniau unigol y plant ac maent yn ymateb i anghenion plant yn effeithiol iawn; mae hon yn nodwedd ragorol. Mae'r ddarpariaeth un i un i blant ag anghenion penodol yn ardderchog.

125 Mae dulliau asesu trwyadl yn arwain at adnabyddiaeth cynnar o ADY. Mae gwaith y cydlynydd AAA o safon uchel iawn ac mae'r cysylltiadau cryf mae hi'n meithrin gyda asiantaethau fel yr uned nam clyw, y seicolegydd addysgol a'r ymwelydd iechyd anghenion arbennig yn sicrhau bod cymorth priodol sydd wedi ei deilwra ar gael i'r plant mwyaf bregus. Mae grwpiau gwrando a 'Tedi'n Siarad' yn ddwy o'r mentrau mwyaf effeithiol o'r nifer o fentrau a ddarperir yn gymorth ychwanegol i'r dysgwyr gan y feithrinfa.

126 Gwna'r plant gynnydd da neu dda iawn, yn gymharol â'u gallu, wrth gyrraedd targedau yn eu cynlluniau addysg unigol (CAUau) . Mae aelod y CLI sydd â chyfrifoldeb am ADY yn ymweld â'r feithrinfa yn rheolaidd ac mae'r rhieni yn chwarae rhan lawn yn y broses o gyfarfod ag anghenion y plant hyn.

127 Ystyrir cyfleoedd cyfartal yn flaenoriaeth a sicrheir bod pob plentyn yn cael ei barchu a'i ddeall mewn amgylchedd gefnogol. Mae'r holl blant bob amser yn cael eu trin yn deg, beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol, ieithyddol, neu ethnig.

128 Mae'r feithrinfa yn hybu cydraddoldeb i fechgyn a merched. Mae'n dda wrth feithrin cysylltiadau hiliol da ac yn delio'n briodol gydag achosion o gydraddoldeb hil. Er nad oes llawer o amrywiaeth yn y cenhedloedd nac yn y diwylliannau ymysg y plant a'u teuluoedd, ceir ymwybyddiaeth lawn gan y feithrinfa wrth hybu diwylliannau gwahanol gyda'r plant a'u rhieni.

129 Mae'r feithrinfa yn sicrhau chwarae teg i blant ag anabledd, ac yn cwrdd ag anghenion y Ddeddf Gwahaniaethu ar ran Anabledd yn ôl y cynllun mynediad manwl, er nad yw'r rhieni bob amser wedi cael gwybodaeth lawn ynglŷn â'r oblygiadau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

130 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd gyda'r graddau a roddodd y feithrinfa yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

131 Mae nodau a gwerthoedd y feithrinfa yn glir ac fe'u hadlewyrchir drwy gydol y dydd. Y man cychwyn yw sicrhau bod y plentyn yn ganolog i'r dysgu a bod y dysgu'n agored i bawb. Mae'r holl oedolion sy'n ymwneud ag addysg y plant yn rhannu'r ymdeimlad o bwrpas, sy'n nodwedd ragorol. Mae'r ysbryd tîm sy'n bodoli yn eithriadol.

132 Mae arweiniad a rheolaeth y feithrinfa wedi bod yn ysbrydoledig o'r cychwyn cyntaf. Mae pennaeth y feithrinfa hefyd yn bennaeth ar y Ganolfan Blant. Y pennaeth sy'n rheoli'r gwaith gweinyddol a chyllid, gwasanaethau gofal plant dyddiol a'r partneriaethau sy'n rhannu'r Ganolfan. Mae'r Pennaeth blaenorol a Phennaeth cyfredol y Ganolfan wedi defnyddio'r agweddau hyn o'u swydd yn wych i gyfannu bywyd a gwaith y feithrinfa. Yn ganolog i'r safonau uchel ac ansawdd yr addysgu, a'r ddarpariaeth yn y feithrinfa, mae eu dealltwriaeth gref o sut mae plentyn yn datblygu a dysgu. Mae rôl y gweithwyr allweddol yn y feithrinfa yn draddatblygiedig.

133 Cefnogir Pennaeth cyfredol y Ganolfan yn fedrus iawn gan y Dirprwy a fu'n elfen gyson effeithiol yn ystod cyfnod o newid; mae'n arwain drwy esiampl.

134 Mae llinellau cyfathrebu'n rhai clir. Caiff pob un sy'n gweithio yn y feithrinfa eu gwerthfawrogi yn yr un modd.. Mae trefn y dydd wedi ei hen sefydlu. Mae'r sesiynau yn symud ymlaen yn sionc heb wastraffu amser.

135 Mae amrediad cynhwysfawr o bolisïau rheolaeth yn sail i'r drefn ddyddiol a strategaethau, ac yn sicrhau bod cysondeb i ddulliau dysgu'r feithrinfa.

136 Rhennir yn gymwys cyfrifoldebau'r darparwyr ar draws y meysydd dysgu. Mae ganddynt i gyd eu disgrifiad swydd ac maent yn llwyr ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Cânt lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu hanghenion a'u medrusrwydd mewn perthynas â mentrau diweddar, er enghraifft gweithgareddau Ysgol y Goedwig, dwyieithrwydd, a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r berthynas waith dda yn sicrhau bod rhannu'r arbenigedd yn effeithiol.

137 Mae rheoli perfformiad wedi'i sefydlu'n dda. Gosodir targedau effeithiol ar gyfer unigolion; mae'r rhain yn ehangu'u diddordebau a'u medrusrwydd fel y gallant gyflawni'u dyletswyddau'n effeithiol.

138 Mae Pennaeth y Ganolfan a'r Dirprwy yn cymryd rhan weithredol wrth fonitro'r staff a rheolir perfformiad Pennaeth y Ganolfan yn gymwys gan ymgynghorwr allanol.

139 Yn y blynyddoedd diwethaf bu'r feithrinfa'n monitro cynnydd athrawon newydd eu cymhwyso yn effeithiol iawn.

140 Mae trefniadau ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) yr athrawon, o dan y drefn waith newydd, yn gymwys ac yn sicrhau dilyniant yn nysgu'r plant. Maent yn darparu gwybodaeth arbenigol effeithiol wrth ddysgu'r Gymraeg yn ail iaith sy'n agwedd y teimla'r feithrinfa bod angen ei datblygu ymhellach.

141 Mae ymateb y feithrinfa i fentrau diweddar yn rhagorol. Mae menter y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus iawn a cheir ymweliadau di-rif gan bobl o Gymru a thu hwnt i weld arfer dda.

142 Gesyd y feithrinfa dargedau heriol ac ymarferol i'w hun ac i'r plant yn y CGC. Mae hwn yn ganlyniad uniongyrchol i'r graddau mae'r feithrinfa yn ei hadnabod ei hunan.

143 Mae'r CLI yn gyfrifol am y Ganolfan Blant yn ei chyfanrwydd. Mae'r aelodau yn adnabod y feithrinfa'n dda a chyfranant yn effeithiol i'w datblygiad strategol trwy pwyllgorau priodol. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio cyllid y feithrinfa a grantiau y llwydda Pennaeth y Ganolfan i sicrhau i'r Ganolfan a'r feithrinfa. Rheolir y cyllid yn dda ac mae'r CLI yn cyflawni ei ofynion statudol.

**Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion eithriadol**

144 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â'r graddau a roddodd y feithrinfa yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

145 Sail ymwybyddiaeth rhagorol y feithrinfa o'i chryfderau a'r ardaloedd i'w cryfhau yw'r prosesau hunan-arfarnu effeithiol iawn. O ganlyniad i hyn, sefydlwyd yn effeithiol ddiwylliant sy'n adlewyrchu arfer dda.

146 Gwneir defnydd anghyffredin o effeithiol o ystod eang o dystiolaeth i roi gwybodaeth berthnasol; maent yn cynnwys ffurflenni grant, ymchwil gweithredol a portffolios y plant. Ceir rhaglen fonitro ac asesu pellach drwy brosiect gyda Phrifysgol Birmingham; mae hon yn nodwedd ragorol.

147 Fel rhan o'i chylch hunan-arfarnu mae'r feithrinfa'n tynnu tystiolaeth gan ystod o arbenigwyr blynyddoedd cynnar er enghraifft athrawon ymgynghorol. Mae hon yn agwedd werthfawr o'r broses.

148 Mae'r feithrinfa'n rhan o wasanaeth monitro ac asesu trosglwyddiad gwasanaeth y Ganolfan Blant. Ceir dadansoddiad drylwyr o ddefnydd arian a'i ddylanwad yn rheolaidd. Mae dogfennau'r Ganolfan, sy'n cynnwys rhai'r feithrinfa, yn cael eu monitro'n rheolaidd pan fydd deddfwriaeth newydd yn dod i rym.

149 Mae'r adroddiad hunan-arfarnu yn ddogfen gynhwysfawr sy'n rhoi adroddiad am waith y Ganolfan yn ei chyfanrwydd. Mae'n llwyddo i roi adroddiad am gryfderau'r

feithrinfa ynghyd â chysylltiadau gyda'r asiantaethau sydd ynghlwm wrth hybu ansawdd bywyd y Ganolfan.

150 Mae cysylltiadau clir rhwng y CGG â'r adroddiad hunan-arfarnu. Mae'r ddogfen yn hybu'n effeithiol gwelliant y feithrinfa a'i blaenoriaeth i gyflawni safonau uchel. Dynodir yn effeithiol dargedau, amser ar gyfer cyflawni, cyfrifoldebau a dosraniad adnoddau. Adolygir y CGG yn rheolaidd; nodir y cynnydd gyda 'wedi cyflawni', 'yn parhau', ac 'yn gweithredu'n hyderus'.

151 Sefydlwyd dull effeithiol o fonitro dosbarth. Mae Pennaeth y Ganolfan yn monitro pob athro/athrawes ac mae'r Dirprwy yn monitro y staff cynorthwyol yn briodol. Mae'r dull effeithiol hwn yn sicrhau bod targedau personol y staff wedi eu dynodi. Rhydd hyn gyfleoedd i staff ddatblygu eu gyrfa.

152 Mae'r arfarniadau dyddiol o'r dysgu a'r addysgu yn rhan eithriadol o'r broses hunan-arfarnu. Mae'r darparwyr i gyd yn pwyso a mesur gweithgareddau'r dydd ar y cyd gan drafod sut y gallant symud y dysgu yn ei flaen.

153 Aiff y Ganolfan ati i ganfod a gweithredu barn y rhieni. Arweinia hyn yn aml at ddatblygu agweddau ar rediad y feithrinfa o ddydd i ddydd. Gwrandewir ar farn y plant ac yn aml bydd eu syniadau, eu mwynhad a'u diddordebau yn arwain cyfeiriad y dysgu.

154 Adolygir yn rheolaidd flaenoriaethau'r CGG gan y CLI. Mae'r aelodau wedi bod yn hunan-arfarnu eu rôl ac maent yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn ymweld â'r feithrinfa'n rheolaidd, ond nid yw'rddarpariaeth fonitro yn y dosbarth wedi datblygu'n llawn.

**Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithiol mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio adnoddau?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

155 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â'r radd a roddodd y feithrinfa yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

156 Mae lefelau staffio yn ôl nifer y plant yn dda iawn. Mae gan yr holl ddarparwyr gymwysterau da iawn i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n effeithiol.

157 Gweithia'r ymwelwyr iechyd, gweithwyr allanol a gweithwyr proffesiynol eraill yn arbennig o dda fel tîm gyda staff y feithrinfa i ddarparu ar gyfer addysg, iechyd a gofynion cymdeithasol y plant. Mae'r holl staff yn cael eu harwain gan y gred eu bod yn gallu, ac yn wir y byddant, yn gwneud gwahaniaeth i eraill.

158 Daw'r darprwyr o ystod o gefndiroedd gwahanol ac mae ganddynt amryw brofiadau. Mae'r feithrinfa'n sicrhau eu bod yn derbyn datblygiad proffesiynol gwerthfawr parhaol sy'n sicrhau eu bod yn gweithio'n rhagorol i hybu'r dysgu trwy roi i'r plant brofiadau dysgu o'r radd flaenaf i'w cynnal a'u herio.

159 Mae’r dynion ar y staff a apwyntiwyd yn ddiweddar yn darparu patrwm o arfer dda gwrywaidd iddynt. Mae cyfundrefn gadarn yn ei lle sy’n rhoi cyfnod CPA i’r athrawon gan gynnwys lle addas i wneud eu paratoadau.

160 Defnyddir myfyrwyr a gwirfoddolwyr i gefnogi’r staff a’r plant yn effeithiol iawn. Gwna’r staff gweinyddol, gofalwyr, glanhawyr a staff amser cinio gyfraniad pwysig wrth weithredu naws ofalgar y feithrinfa.

161 Caiff y plant gyfleoedd di-ri i ddefnyddio ystod o ddeunyddiau ac offer o safon uchel, dan do ac yn yr awyr agored; fe’u hadolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gymwys ac o safon uchel. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig at y safonau ardderchog a gyrhaeddir; mae’r CLl yn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i’r blaenoriaethau a nodir yn y CGG.

162 Defnyddir arddangosfeydd deniadol yn effeithiol fel adnodd dysgu ac maent yn creu awyrgylch gynnes, esthetaidd braf yn yr adeilad.

163 Mae adeilad y Ganolfan wedi ei chodi’n bwrpasol i gwrdd ag anghenion plant ifanc a’r gymuned ehangach mewn ffordd ragorol. Mae ansawdd yr adeiladau yn rhagorol gydag ardaloedd eang, ysgogol lle mae plant yn dysgu. Mae’r neuadd, sy’n cael ei defnyddio gyda gwasanaethau dyddiol eraill, yn cael ei defnyddio’n dda ar gyfer gweithgareddau cwricwlaidd yn ogystal â darparu cinio. Defnyddir ystafelloedd llai yn ddychmygus i weithio gyda grwpiau llai ac mae’r gegin rhwng y ddau ddosbarth yn cael eu defnyddio’n effeithiol i wersi coginio.

164 Mewn partneriaeth â Choleg Michaelston datblygwyd yr ardaloedd awyr agored yn ddychmygus i ddarparu ardaloedd diogel i ymchwilio a fforio. Mae’r ardd synhwyrau ac Ysgol y Goedwig yn adnoddau gwerthfawr sy’n cael eu defnyddio’n dda. Defnyddir yr ardal chwarae meddal yn effeithiol ar gyfer ystod o weithgareddau. Defnyddir hefyd ardal wedi ei gorchuddio yn yr awyr agored yn effeithiol iawn i sicrhau bod y plant yn gallu chwarae tu allan hyd yn oed yn y tywydd garwaf.

165 Mae cyllid y feithrinfa yn cael ei arolygu’n rheolaidd ac yn cael ei wario i ddarparu’r adnoddau mwyaf effeithiol ac addas. Mae’n cael ei reoli’n effeithiol gan bennaeth y Ganolfan gyda chefnogaeth swyddog cyllid y Ganolfan, is-bwyllgor cyllid y CLl, a swyddog cyllid yr awdurdod lleol.

166 Mae’r feithrinfa yn llwyddiannus wrth ennill grantiau gan ystod eang o ffynonellau; cyfranna hyn yn sylweddol at les y plant. Defnyddir y cyllid yn dda iawn i sicrhau cynnal a datblygu safon uchel yr adnoddau. Mae’r feithrinfa’n llwyddo’n dda i reoli’r adnoddau ac yn darparu gwerth da iawn am arian.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

| **Plant o dan 5 oed** | **Gradd 1** |
|---|---|

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac aml ddiwylliannol.**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

167 Mae'r plant yn ffynnu mewn amgylchedd sy'n eu meithrin i ddeall eu bod yn unigryw ac arbennig. Rhedant yn frwdfrydig i mewn i'r feithrinfa ar ddechrau'r sesiynau gan chwilio am eu ffrindiau er mwyn rhannu'r hyn sydd gyda diwrnod newydd ei gynnig. Crwydrant yn hyderus o un weithgaredd i'r llall gan ymuno'n ddi-ffwdan gyda grŵp sydd eisoes yn brysur. Maent yn cadw ar dasg am gyfnodau sylweddol ac maent yn benderfynol o orffen y weithgaredd yn dda.

168 Mae dealltwriaeth y plant bod rhaid iddynt gydymffurfio ar adegau yn ystod y dydd ond bod cyfle i wneud dewisiadau ar adegau eraill yn rhagorol; dewisant yn ddoeth. Deallant bwysigrwydd rhyngweithio mewn grŵp a gadael i'w cyfoedion gymryd tro, a bod rhaid rhannu'n deg.

169 Dealla'r plant yr ymddygiad sy'n dderbyniol ac na ddylent amharu ar fwynhad eu cyfoedion. Maent yn gwybod eu bod i ystyried teimladau pobl eraill. Parchant a diolchant i oedolion sy'n gyfrifol amdanynt. Dangosant barch at bethau byw a deallant bwysigrwydd gofal yr amgylchedd.

170 Mae datblygiad hunan-wybodaeth y plant yn ardderchog. Deallant bod angen cydymffurfio a thacluso ar ddiwedd tasg a bod ganddynt gyfrifoldeb am eu heiddo. Maent yn dechrau deall bod rhaid iddynt weithiau gymryd y cam cyntaf a bod datrys problemau yn rhan o fywyd bob dydd.

171 Dealla'r plant bod angen dilyn rheolau syml glendid personol,er enghraifft, golchi dwylo ar ôl chwarae tu fas. Deallant bod mentro yn rhan o fywyd bob dydd ond bod rhaid cadw at reolau iechyd a diogelwch, er enghrafft, rhaid gwisgo het galed wrth 'adeiladu' neu 'ddiffodd tân'.

172 Mae'r plant yn deall i'r dim bod gwahanol ffyrdd o fyw i'w cael yn y byd. Maent yn ymwybodol bod pobl yn mwynhau gwahanol ddiwylliannau, a'u bod yn gwisgo'n wahanol, bod ganddynt hoff fwyd a bod eu hamodau byw yn gallu bod yn wahanol.

173 Mae'r plant yn gwybod eu bod yn byw yng Nghymru a bod yma nifer o hen gestyll ond bod yna adeiladau newydd yng nghanol y ddinas a Bae Caerdydd. Deallant er bod pobl o wahanol ddiwylliannau yn anhebyg, bod pob un yn gyfartal.

**Diffygion**

174 Does dim diffygion amlwg.

**Iaith , llythrennedd a chyfathrebu**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

175 Mae datblygiad sgiliau gwrando'r plant wedi datblygu'n dda eithriadol. Deallant bwysigrwydd gwrando ar gyfarwyddiadau'r darparwyr er mwyn hwyluso eu mwynhad o'r gweithgareddau sydd yn dilyn. Gwrandawant yn awchus ar storïau, sylwadau eu cyfoedion, ac ar y sgwrsio prysur sydd o'u cwmpas.

176 Mae'r plant yn deall bod gwahanol ffyrdd o gyfathrebu a bod osgo neu gyffyrddiad yn gallu helpu. Siaradant yn hyderus, gan egluro'r hyn maent wedi ei wneud a'u bwriad. Gall llawer roi atebion estynedig; mae eu geirfa'n datblygu a gallant ddefnyddio brawddegau di-dor mewn ffordd aeddfed.

177 Mae'r plant yn ynganu'n glir wrth balu'r ardd, disgrifio trac y tren, trafod creaduriaid y môr neu ganmol rinweddau eu bochdew newydd. Gallant ddefnyddio geirfa briodol yn gymwys.

178 Mae'r plant yn ymwybodol iawn o'r mwynhad a geir o lyfrau. Dewisant yn frwd o'r llyfrgell i fynd adref. Crwydrant o'u gwirfodd i'r gornel lyfrau i 'sbecian ar lyfr'. Maent yn trafod llyfrau'n ofalus ac yn cyfateb geiriau a lluniau. Siaradant yn awyddus am y cymeriadau yn eu hoff storïau.

179 Mae'r plant hefyd yn deall bod rhai llyfrau yn rhoi gwybodaeth. Mae llawer un yn adnabod eu henwau ar y matiau bwrdd cinio ac ar y bwrdd hunan-gofrestru. Deallant bod mapiau yn cynnwys symbolau ond yn defnyddio geiriau i enwi lleoedd. Mae'r plant hefyd yn ymwybodol o brint yn yr amgylchedd ac yn deall bod arwyddion yn eu 'safle adeiladu' tu fas yn cyfleu negeseuon pwysig i'r 'gweithwyr'. Gallant ddeall ystod o destunau TGCh yn dda iawn.

**Nodweddion da**

180 Mae'r plant yn mwynhau creu marciau ar bapur a defnyddiant yn ddeheuig amrywiaeth dda o offer ysgrifennu. Maent yn gwybod bod sawl pwrpas i ysgrifennu; er enghraifft maent yn gwybod bwriad ysgrifennu cerdyn post, pwysigrwydd lluniau a chynildeb. Deallant bod angen gwneud rhestri weithiau a bod angen i wahoddiadau parti fod yn lliwgar a deniadol. Defnyddiant y bwrdd gwyn yn aml i ymestyn eu sgiliau cyn-ysgrifennu.

**Diffygion**

181 Does dim diffygion pwysig

**Datblygiad mathemategol**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

182 Mae gan y plant ddealltwriaeth ardderchog o lawer o gysyniadau mathemategol oherwydd y nifer o ymchwiliadau datrys problemau a wnânt. Maent yn cymhwyso eu gwybodaeth i sefyllfaoedd go iawn wrth gyfrif yn llwyddiannus sawl llwyaid o gynhwysion sydd ei angen wrth goginio. Dangosant lefel dda iawn o ddealltwriaeth mewn tasgau ymarferol fel llenwi tryc â cherrig, mesur waliau'r safle adeiladu, adeiladu model o dŷ yn eu 'byd bach' neu amcangyfrif mesuriadau wrth adeiladu model mawr o ddraig.

183 Mae adnabyddiaeth y plant o rif yn ardderchog. Gallant dwyn i gof rifau yn dda iawn mewn hwiangerddi rhif a chaneuon yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Maent yn adnabod rhifau i ddeg a thu hwnt, a bydd rhai o'r plant hŷn yn defnyddio ystod o ddulliau wrth adio rhifau bach. Gallant adnabod rhifau ar ddrws, esgidiau glaw a beiciau a gallant drefnu dillad i setiau yn llwyddiannus. Maent yn darganfod esgidiau sy'n matsio ac yn gallu didoli eitemau o ddillad mewn setiau.

184 Mae gan y plant ddealltwriaeth rhagorol o batrymau syml. Gallant eu hadnabod mewn adeiladau a'u trafod mewn byd natur yn dda iawn, er enghraifft y patrymau ar ddail sy'n troi'u lliw yn yr hydref. Gallant osod siapiau mewn trefn yn effeithiol i greu patrymau a gallant ail adrodd patrymau ail-adroddus ar bapur neu grysau-T.

185 Mae'n amlwg bod gan y plant wybodeth arbennig o siapiau dau ddimensiwn pan yn trafod siapiau drychau, siarad am ddail yn Ysgol y Goedwig, a defnyddio briciau i adeiladu modelau ar raddfa fawr yn yr awyr agored.

**Nodweddion da**

186 Mae'r plant yn datblygu amrywiaeth o strategaethau cyfrif da iawn yn y pen ac yn ysgrifenedig; er enghraifft maent yn cadw cyfrif sgôr wrth chwarae gêm ac yn gosod y bwrdd amser cinio. Mae'r plant yn cyffwrdd gyfri'n gywir ar y sgrîn wrth gyfrif wyau ar gêm fferm ar y cyfrifiadur.

187 Gall y plant drafod arian yn dda a deallant bod angen arian i brynu tocyn bws a bod angen talu'r milfeddyg am drin bochdew sâl. Mae eu dealltwriaeth o bwyso yn y gwersi coginio ac mewn gweithgareddau adeiladu yn ardderchog. Gallant amcangyfrif taldra blodyn yn synhwyrol, gan gymharu'r mesuriadau'n effeithiol ar ôl mesur.

188 Defnyddia'r plant eirfa fathemategol gymwys yn effeithiol i holi ac egluro'u syniadau. Maent yn holi ac yn ymateb yn frwd gan ddefnyddio termau mathemateg yn dda, er enghraifft, wrth gymharu maint sawl injan dân neu drafod maint amlenni.

**Diffygion**

189 Does dim diffygion pwysig

**Datblygiad y Gymraeg**

190 Cyfeiria'r sylwadau yma at y dosbarth cyfrwng Saesneg yn unig.

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.**

**Nodweddion rhagorol**

191 Mae agwedd y plant at ddysgu Cymraeg yn ardderchog. Maent yn ymateb yn dda i'r Gymraeg yn yr amgylchedd ac yn ymateb yn gadarnhaol pan glywant yr iaith wrth ymuno â phlant y dosbarth Cymraeg.

192 Mae dealltwriaeth y plant, wedi ychydig o wythnosau yn unig yn ei dysgu, yn ardderchog. Maent yn ymateb yn gywir i ystod o gyfarwyddiadau yn ymwneud â threfn y dosbarth.

193 Defnyddia'r disgyblion ystod o eirfa; mae eu hyganiad a'u patrymau iaith yn datblygu'n dda iawn. Gallant dwyn i gof yn dda wrth ganu caneuon iaith sydd yn ailadrodd y patrymau.

**Nodweddion da**

194 Mae gan y plant wybodaeth dda o enwau anifeiliaid. Gallant rifo'n hyderus gan atgyfnerthu hyn mewn rhigymau. Maent yn adnabod eu lliwiau yn Gymraeg ac fe'u defnyddiant yn ddyddiol.

195 Maent yn gallu gofyn yn gywir am bethau, holi sut mae rhywun, a disgrifio'u teimladau. Gofynnant enw eu cyfoedion yn gywir, gan ddefnyddio 'Ble mae' pan fyddant eisiau gwybod ble mae rhywbeth neu ble mae rhywbeth yn cael ei gadw.

196 Pan fyddant yn chwarae rôl yn y tŷ bach twt maent yn defnyddio'r eirfa syml fydd angen arnynt yn y cartref, ac wrth ymolchi'r babi. Gallant ddwyn i gof yr eirfa a ddysgwyd mewn sesiynau sy'n dilyn.

197 Mae'r plant yn defnyddio ystod o lyfrau stori a gallant adalw yr eirfa a ddysgwyd ganddynt mewn testun anghyfarwydd. Deallant storïau syml ailadroddus ac maent yn ymateb yn briodol. Deallant rai o swyddogaethau ysgrifennu yn y Gymraeg

**Diffygion**

198 Does dim diffygion pwysig.

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.**

**Nodweddion rhagorol**

199 Mae gwybodaeth eithriadol dda gan y plant am bethau byw. Gallant gymharu anifeiliaid a phobl yn effeithiol, gwyddant sut i ofalu am eu hanifeiliaid anwes, trafodant newidiadau yn y tywydd neu ddisgrifiant yn frwdfrydig y dail a chastanau a gasglwyd wrth fynd am dro ar ddiwrnod o hydref.

200 Mae pryder a pharch y plant am yr amgylchedd yn rhagorol. Defnyddiant a chyfrannant i wrtaith yr abwydfa a'r biniau ailgylchu. Defnyddiant y casgenni dŵr yn rheolaidd wrth ddyfrhau planhigion a lleisiant eu barn yn aeddfed ar sut y byddent yn gwella'u hamgylchedd. Gwnânt arolygon yn hyderus am wella'u hardal leol.

201 Defnyddia'r plant chwyddwydrau'n effeithiol i arsylwi ar greaduriaid bach yr ardd, casglant berlysiau o'r ardd synhwyrau a maent yn gwybod bod angen dŵr ar blanhigion er mwyn iddynt fyw. Gallant drafod yn wybodus arferion byw malwod anferth. Deallant yn dda iawn gylchoedd bywyd pili-palod a brogaod, ynghyd â nadredd a gwaith ceffylau'r heddlu.

202 Mae ymweliadau â lleoedd gwaith ac ymweliadau gan bobl o wahanol alwedigaethau wedi rhoi iddynt ddealltwriaeth eithriadol o swyddi pobl , er enghraifft plismyn, nyrsus, adeiladwyr a gwŷr tân. Maent yn gwerthfawrogi profiadau cyffrous er mwyn dod i ddeall traddodiadau o wledydd eraill, er enghraifft dawnsio gwlad India a bwyta bwyd Tsieineaidd gyda gweill bwyta.

203 Defnyddia'r plant eu synhwyrau'n eithriadol o dda i gyffwrdd â, a theimlo creaduriaid y môr, i sylwi ar effaith gwres ar iâ, i arbrofi gyda tortshis a drychau ac i wrando ar synnau mewn cregyn. Dangosant eu bod yn gallu craffu'n fanwl wrth astudio grymoedd a gweld sut mae dŵr yn gallu gwthio dail trwy gafn, a datblygant wybodaeth ardderchog am symudiad dŵr wrth iddynt neidio i ganol pyllau glaw.

**Nodweddion da**

204 Daw y plant i ddeall digwyddiadau yn y gorffennol yn well wrth edrych ar luniau ohonynt yn fabanod. Defnyddiant luniau'n effeithiol i sylwi ar ddillad pobl yn y gorffennol a defnyddiant eirfa pwrpasol i ddisgrifio treigl amser.

205 Wrth fynd ar ymweliadau i siopau a mynd am dro yn yr ardal daw y plant i wybod mwy am yr adeiladau a thrafnidiaeth lleol. Deallant yn dda bwrpas mapiau a dilynant lwybrau yn yr ardal awyr agored. Mae'u gwybodaeth o'r byd o'u cwmpas yn raddol gynyddu; mae ganddynt wybodaeth dda a diddordeb yn y 'bysiau bendy' ar ôl teithio ynddynt ar sawl ymweliad.

206 Defnyddiant lu o ffynonellau amrywiol i ddiwallu eu cywreinrwydd am y byd o'u cwmpas. Er enghraifft, defnyddiant storïau tebyg i 'Y Lindysyn Llwglyd' ynghyd â modelau, posteri a TGCh i helpu ateb rai o'u cwestiynau.

**Diffygion**

207 Does dim diffygion pwysig.

**Datblygiad corfforol**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

208 Defnyddia'r plant eu cyrff yn arbennig o dda, gan ddangos ymwybyddiaeth eithriadol o wagle, cydbwysedd, rheolaeth a chyd-symud. Mae'u sgiliau motor a'u medrusrwydd yn datblygu'n ardderchog.

209 Mae eu sgiliau trin a thrafod offer mawr yn dda iawn. Symudant yn hyderus iawn, gan ddangos hunan-reolaeth wrth ddringo, siglo, a chadw cyd-bwysedd ar y trawst crocodil, dringo'r wal ac ymateb i her yr offer awyr agored. Gallant reoli'n effeithiol y rholeri mawr yn yr ardal graffeg y tu allan, a thynnu a gwthio teganau ar olwynion, a gallant reidio beiciau pedal a melinau traed ddwbwl yn egnïol. Gallant drin y peiriannau cloddio yn ei safle adeiladu yn fedrus a gallant daflu, dal, rholio a chicio peli gyda chydweddiad.

210 Yn y gweithgareddau dawns mae plant yn ymateb yn sensitif i symbyliad; pan fyddant yn chwarae rôl ar y llwyfan awyr agored, defnyddiant eu cyrff yn effeithiol iawn gydag osgo pwrpasol gan adlewyrchu'r byd o'u cwmpas.

211 Mae'r plant yn datblygu sgiliau mudol mân ardderchog wrth ddefnyddio offer mawr a bach. Gallant drafod toes a chlai yn effeithiol iawn a defnyddiant sisyrnau, offer coginio a deunyddiau gwnïo gyda gofal. Defnyddiant binnau ffelt yn hyderus yn yr ardal ysgrifennu, a thrafod offer yn fedrus wrth greu modelau neu adeiladu waliau briciau gyda'r adeiladwyr. Gallant lywio llygoden y cyfrifiadur a defnyddio camera digidol yn fedrus, a gallant orffen jig-sôs a chwarae'n dda iawn gyda byrddau peg.

**Nodweddion da**

212 Dengys y plant frwdfrydedd a gweithiant yn egnïol yn eu gweithgareddau corfforol, er enghraifft trwy fynd am dro yn lleol, palu'r ardd, rholio teiars neu dynnu tryciau ar y safle adeiladu. Maent yn rhedeg, cerdded, sgipio a neidio'n egnïol yn yr awyr agored ac yn y gweithgareddau gymnasteg.

213 Mae ganddynt ddealltwriaeth dda bod ymarfer corff yn dda iddynt. Gwerthfawrogant hefyd werth deiet cytbwys a chwsg. Maent yn trin a thrafod offer ac adnoddau yn hyderus ac yn mentro'n ofalus, er enghraifft , defnyddiant gyllyll miniog i drin llysiau a llestri tseina yn y tŷ bach twt.

**Diffygion**

214 Does dim diffygion pwysig.

**Datblygiad creadigol**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.**

**Nodweddion rhagorol**

215 Mae'r plant yn datblygu ystod o sgiliau eithriadol pan yn ymgolli'n llwyr wrth chwarae rôl, yn y dosbarth ac yn yr awyr agored. Chwaraeant rôl wragedd tŷ a gwŷr tŷ yn y tŷ bach twt yn gredadwy. Wrth gymryd arnynt eu bod yn weithwyr ysbyty deallant rôl benodol y derbynnydd wrth drefnu apwyntiadau. Yn y clyweliadau 'X Ffactor' chwaraeant yn eiddgar rôl y gitarydd, trwmpedwr a chantorion pop.

216 Dewisa'r plant yn synhwyrol wrth ymdrin â lliw a gweadwaith mewn amrywiaeth helaeth o ddefnyddiau. Cymysgant liwiau yn ddychmygus a dônt i sylweddoli'r effeithiau a geir wrth wneud hyn. Gallant baentio hunan bortreadau deniadol gan ddewis lliw a thôn yn gall. Nodwedd rhagorol o'u datblygiad creadigol yw'r ffordd y gweithiant gyda deunyddiau naturiol. Casglant aeron o'u gweithgareddau yn eu Ysgol y Goedwig a'u malu'n fân i greu ôl dwylo lliwgar. Cyd-weithiant i greu llun hardd gyda phren a dail i gyfleu'r hydref, ac maent yn falch iawn o'r rhwyd freuddwydion a wnânt gyda defnyddiau a ddaw o'r awyr agored.

217 Defnyddia'r plant nifer o wahanol dechnegau ac offer yn eu gwaith celf. Defnyddiant wahanol fathau o frwshys er mwyn dod i sefydlu dealltwriaeth o bwysigrwydd llinellau mewn llun. Defnyddiant greonau pastel ar gynfas yn llwyddiannus i dynnu llun y camau yng nghylch bywyd y pili-pala. Defnyddiant bensiliau'n fedrus i wneud eu delweddau ei hun o'r falwen.

218 Cyd-weithia'r plant yn dda iawn i greu injan dân a draig anferth gyda deunyddiau gwastraff. Amlygant sgiliau arsylwi o'r radd flaenaf wrth benderfynu ar fanylion y gwaith, a defnyddiant y glud yn ofalus i orffen y dasg. Maent yn cynhyrchu teiliau hardd ac yn eu haddurno gyda deunyddiau naturiol, ac yn gwneud ôl llaw ac ôl traed gyda mowld phlaster ac 'art rock'. Defnyddiant ystod o ddeunyddiau hydrin yn ddeheuig iawn.

219 Yn dilyn ymweliad â'r Amgueddfa Genedlaethol dyfarnwyd mai'r 'Ladi Las' oedd hoff ddarlun y plant. Ar ôl dychwelyd i'r Ganolfan aeth y plant ati i greu portreadau a modelau o fenyw las gan ymestyn eu hymwybyddiaeth o liw.

**Nodweddion da**

220 Mae'r plant yn gwrando ar gerddoriaeth yn rheolaidd a dônt yn gyfarwydd â gwahanol arddulliau o gerddoriaeth. Canant yn Saesneg ac yn Gymraeg a dangosant eu bod yn datblygu ymwybyddiaeth o ddeinameg. Maent yn deall traw a dechreuant ddefnyddio termau cerdd yn gywir.

221 Gallant ymchwilio i nifer o ffynonellau sain. Dangosant eu bod yn gallu dal offerynnau di-draw yn gywir, a gallant ddewis offerynnau cymwys i gyfleu synnau anifeiliaid. Gallant guro rhythmau'n gywir a defnyddio symudiadau'r corff i gyd-fynd â'r caneuon.

**Diffygion**

222 Does dim diffygion pwysig.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

223 Mae pawb yn yr Nghanolfan Blant Elai a Chaerau wrth eu bodd gydag adroddiad diweddar Estyn yn dilyn arolygiad y meithrinfeydd Saesneg a Chymraeg.

224 Mae llwyddiant yr arolygiad yn dyst i waith caled ac ymroddgar yr amryw bartneriaid ers sefydlu'r Ganolfan gan gynnwys neb llai na Phennaeth blaenorol y Ganolfan a fu'n allweddol yn ei sefydlu ac yn ei harwain am y tair blynedd gyntaf.

225 Cymerodd y tîm arolygu amser i archwilio sut mae gwasanaethau'r Ganolfan yn gwbwl integredig ac nid yn unedau unigol.

226 Rydym yn hynod falch bod yr arolygwyr wedi nodi bod cyfraniad y meithrinfeydd i adfywiad cymunedau Elai a Chaerau yn anferth.

227 Er bod yr arolygwyr wedi dyfarnu gradd 1 i bob un o'r saith cwestiwn ac i bob maes dysgu ac wedi nodi sawl nodwedd rhagorol ac ardderchog yn yr adroddiad, hoffem bwysleisio nad ydym yn hunanfodlon.

228 Byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaid ar bob lefel ac ar bob cam i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'n plant ifanc a'u teuluoedd.

229 Bydd y staff a'r CLl yn mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad er mwyn 'adeiladu ar y safonau a'r ddarpariaeth ardderchog sy'n bod eisoes'. Bydd copi o'r cynllun gweithredu (a gymerwyd o'r Cynllun Gwella'r Ganolfan) sy'n ymateb i'r argymhellion, yn cael ei ddosbarthu i'r rhieni.

230 Ar ran y plant, rhieni, llywodraethwyr, staff a phartneriaid y Ganolfan hoffwn ddiolch i aelodau'r tîm am eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth manwl o weithrediad y Cyfnod Sylfaen, eu diddordeb yng ngwaith y Ganolfan yn ei chyfanrwydd, eu cwrteisi a'u proffesiynoldeb, a'r boddhad a gafodd y tîm yn ein cymuned ddysgu a'r cyfan sydd ganddi i'w chynnig.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Canolfan Blant Elai a Chaerau |
| Math o ysgol | Cyfnod Sylfaen |
| Ystod oedran y disgyblion | 3-4 oed |
| Cyfeiriad yr ysgol | Coleg Gymunedol Michaelston, Heol Michaelston, Elai, Caerdydd. |
| Cod post | CF5 4SX |
| Rhif ffôn | 029 2067 1438 |

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mrs Carolyn Asante |
| Dyddiad penodi | Medi 2008 |
| Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol | Mrs Ray Wright |
| Arolygydd cofrestredig | Mrs Eleri Betts |
| Dyddiadau'r arolygiad | Hydref 20-22 2008 |

# Atodiad 2

## Data a dangosyddion ysgol

| Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp blwyddyn | M (call) | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
| Nifer y disgyblion | 45 | - | - | - | - | - | - | - | 45 |

| Cyfanswm nifer yr athrawon | | | |
|---|---|---|---|
| | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfwerth ag amser llawn (call) |
| Nifer yr athrawon | 4 | 0 | 4 |

| Gwybodaeth staffio | |
|---|---|
| Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig) | - |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin | 8:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig | - |
| Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig | - |
| Cymhareb athro (call): dosbarth | 1:1 |

| Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad | | | |
|---|---|---|---|
| Tymor | M | D | Gweddill yr ysgol |
| Hydref 2007 | 86% | - | - |
| Gwanwyn 2008 | 85% | - | - |
| Haf 2008 | 85% | - | - |

| | |
|---|---|
| Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim | - |
| Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad | - |

## Atodiad 3

### Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tri arolygwr saith diwrnod (cyfwerth) yn y Ganolfan. Dirprwy Bennaeth y Ganolfan oedd yr enwebai. Cynhaliwyd cyfarfod i holl aelodau'r tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr â

- Trideg sesiwn neu ran o sesiwn;

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda :

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- athrawon, staff cynhaliol a staff gweinyddol;
- grwpiau o blant; a
- chynrychiolwyr mudiadau oedd â chysylltiadau â'r ysgol.

Ystyriwyd hefyd;

- adroddiad hunan-arrfarnu'r ysgol
- pedwar deg saith ymateb i holiadur rhieni, o'r rhain roedd 99% yn gadarnhaol;
- dogfennau gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- ystod eang o weithgareddau'r plant; a
- samplau o adroddiadau i'r rhieni.

Yn dilyn yr arolygiad cynhaliodd y tîm gyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr.

## Atodiad 4

**Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu**

| Aelod tîm | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| Mrs Eleri Betts<br>Arolygydd Cofrestredig | Adroddiad cryno<br>Argymhellion<br>Cwestiwn Allweddol 1,3,5,6<br>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles, aml ddiwylliannol,<br>Iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>Datblygiad y Gymraeg<br>Datblygiad creadigol |
| Mrs Marian Donovan<br>Arolygydd Lleyg | Cyfrannu at Gwestiynau Allweddol 1,3,4,7. |
| Mrs Zorah Evans<br>Arolygydd Tîm | Cwestiwn Allweddol 2,4,7<br>Datblygiad Mathemategol<br>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd<br>Datblygiad Corfforol<br>. |
| Mrs Kathryn Leighfield<br>Dirprwy Bennaeth<br>Enwebai | Mynychu cyfarfodydd a darparu gwybodaeth |

**Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r disgyblion, rhieni, staff, a'r Corff Llywodraethol am eu cydweithrediad cyn ac yn ystod yr arolwg.**

**Contractwr:**

**E.L.L.I.S. (CYMRU) Cyf**
**Canolfan Jasmine**
**Uned 1**
**Ffordd Treseder**
**Caerdydd**
**CF5 5BQ**